Hawdd i'w Ddeall

# Canllawiau cyfrif banc ar gyfer ceisiadau grant




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Ganllawiau Cyfrif Banc'**.

**Awst 2023**


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** arts.wales/cy

**E-bost:** buddsoddiacariannu@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.
**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247**

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma** .......... **2**

**Cyflwyniad** .......... **4**

Pam a phryd rydyn ni angen eich manylion banc .......... 4

**Tystiolaeth cyfrif banc** .......... **8**

Pa dystiolaeth rydyn ni ei angen gan sefydliadau .......... 8

Pa dystiolaeth rydyn ni ei angen gan unigolion .......... 14

**Sut i greu cofnod banc ar-lein** .......... **19**

**Gwneud newidiadau neu rhoi mwy o dystiolaeth** .......... **21**

**Sut i dderbyn cynnig grant** .......... **24**

# Cyflwyniad




Mae'r ddogfen yma am yr wybodaeth banc rydych chi ei angen os ydych chi am wneud cais am ein grantiau.



Darllenwch y canllawiau yma cyn gwneud cais am unrhyw grant.


## Pam a phryd rydyn ni angen eich manylion banc




Mae'n rhaid i chi neu eich sefydliad gael cyfrif banc cyn i chi anfon cais grant atom ni.



Mae angen i'ch cyfrif banc fodloni ein gofynion.




Does dim angen i chi roi’r manylion cyn i chi wneud cais am y grant.



Fyddwn ni ddim yn gallu rhoi unrhyw arian i chi os nad oes gennych chi gyfrif banc a’r prawf banc rydyn ni ei angen.

## Edrychwch ar eich manylion banc



Pan fyddwch chi wedi derbyn eich cynnig grant ar-lein, fe fyddwn ni yn edrych ar y cyfrif rydych chi eisiau i ni dalu’r grant iddo.



Mae’n rhaid i’ch cyfrif banc a’ch tystiolaeth banc rydych chi wedi eu rhoi ateb ein hanghenion.




Os byddwch chi yn rhoi tystiolaeth anghywir i ni neu ddim digon o dystiolaeth, mae hynny'n gallu oedi unrhyw daliadau.




Os ydy eich cyfrif yn anghywir efallai y bydd yn rhaid i ni ganslo ein cynnig grant i chi.



Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybodaeth gywir i ni a phrawf o'ch cyfrif banc a'ch datganiadau banc.

## Ar ôl i ni edrych ar eich tystiolaeth



Os ydy eich cyfrif banc yn ateb ein hanghenion, fe fydd **Ie** yn yr adran ddilysu. Fe fydd hyn yn yr adran **Manylion Banc** ar-lein.



Mae **dilysu** yn meddwl gwirio a chymeradwyo.




Fe fyddwn ni yn cymeradwyo eich manylion banc am 2 flynedd. Rydych chi'n gallu gweld y dyddiad gorffen ar-lein.




Os ydyn ni angen mwy o dystiolaeth, fe fyddwn ni yn cysylltu â chi. Efallai y bydd angen i chi anfon mwy o dystiolaeth i ni os oes angen.

# Tystiolaeth cyfrif banc

## Pa dystiolaeth rydyn ni ei angen gan sefydliadau

### Cyrff Statudol



Mae **cyrff statudol** yn sefydliadau y mae'r llywodraeth wedi'u sefydlu. Pethau fel cynghorau, ysgolion, gofal cymdeithasol a byrddau iechyd.




Fe ddylai eich cyfrif banc gael enw cyfreithiol eich sefydliad neu enw ei awdurdod lleol.




Does dim angen i chi roi tystiolaeth o'ch cyfrifon banc.




Os ydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi, fe fyddwn ni angen gwybod pa gyfrif banc rydych chi eisiau i ni dalu i mewn iddo.



Fe fyddwn ni angen eich manylion banc ar ein system.

## Sefydliadau eraill

**Fe ddylai eich tystiolaeth ddangos:**




- Enw cyfreithiol eich sefydliad.
- Bod o leiaf 2 o bobl yn cael mynediad i'ch cyfrif banc.
- Rhif y cyfrif a'r cod didoli.

**Fe fydd angen i'r dystiolaeth yma:**




- Bod yn llai na 6 mis oed ar y diwrnod y byddwn ni yn edrych ar y manylion banc.




- Cyd-fynd â'r manylion cyfrif rydych chi wedi'u rhoi.




- Yn dod o'ch banc. Fe ddylen nhw fod wedi ei greu a'i orffen.



Mae'n rhaid i chi neu'ch sefydliad gael cyfrif banc sy'n bodloni'r gofynion sydd yn cael eu rhestru uchod cyn i chi wneud cais am grant. Does dim angen i chi roi'r manylion cyn gwneud cais.

## Mathau o dystiolaeth rydyn ni ei angen gan sefydliadau



Mae’n rhaid i chi uwchlwytho dogfennau ar gyfer prawf ar-lein o dan yr **adran Manylion Banc**.



Paratowch eich dogfennau i’w uwchlwytho cyn i chi greu cofnod banc.




Fe ddylai eich dogfennau gyd-fynd â manylion banc.

Rydych chi'n gallu rhoi tystiolaeth i ni fel:



- Llythyr neu e-bost gan eich banc yn dangos y dyddiad y mae'r banc wedi ei anfon atoch chi.




- Llun sgrin o'ch bancio ar-lein. Fe ddylai ddangos enwau deiliaid cyfrifon a gwybodaeth cyfrif banc y sefydliad a'r dyddiad.





- Ffotograffau o'r cerdyn banc ar gyfer deiliad y cyfrif. Fe ddylai ddangos eu henwau, enw cyfrif, rhif cyfrif a chod didoli.




- Os nad oes gan eich cerdyn banc yr holl wybodaeth yma, fe fydd yn rhaid i chi roi tystiolaeth fel datganiadau banc.

**Fe ddylai'r dogfennau rydych chi'n eu uwchlwytho fod:**



- Hyd at 10 MB yr un o ran maint.
- PDF, MS Word, MS Excel, MS PowerPoint neu JPEG.



Dydyn ni ddim  yn derbyn ffeiliau mewn fformatau HEIC, Pages, CSV, RAW a DAT.




Dydyn ni ddim yn derbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sydd â dim ond paslyfr.




Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y dystiolaeth banc rydyn ni ei angen, anfonwch e-bost i ni ar buddsoddicanariannu@celf.cymru.

# Pa dystiolaeth rydyn ni ei angen gan unigolion

**Fe ddylai eich tystiolaeth ddangos:**




- Mae’r cyfrif yn eich enw cyfreithiol.




- Rhif y cyfrif a’r cod didoli.




- Eich cyfeiriad. Rhaid i’r cyfeiriad hwn fod yng Nghymru a rhaid iddo fod yr un fath â’r cyfeiriad rydych chi wedi ei roi yn eich cais am grant.

**Fe fydd angen i'r dystiolaeth yma:**




- Bod yn llai na 6 mis oed ar y diwrnod y byddwn ni yn edrych ar y manylion banc.




- Cyd-fynd â'r manylion cyfrif rydych chi wedi'u rhoi.




- Yn dod o'ch banc. Fe ddylen nhw fod wedi ei greu a'i orffen.



Mae'n rhaid i chi gael cyfrif banc cyn i chi wneud cais am grant. Does dim angen i chi roi'r manylion cyn gwneud cais.

## Mathau o dystiolaeth rydyn ni ei angen gan unigolion



Mae’n rhaid i chi uwchlwytho dogfennau ar gyfer prawf ar-lein o dan yr adran **Manylion Banc.**



Paratowch eich dogfennau i’w uwchlwytho cyn i chi greu eich cofnod banc.




Fe ddylai eich dogfennau gyd-fynd â manylion banc.

**Rydych chi’n gallu rhoi tystiolaeth i ni fel:**




- Tudalen gyntaf eich datganiad banc.



- Llythyr neu e-bost gan eich banc yn dangos y dyddiad y mae’r banc wedi ei anfon atoch chi.




- Llun sgrin o’ch bancio ar-lein. Fe ddylai ddangos eich enw, cyfeiriad, manylion cyfrif a’r dyddiad.





- Ffotograffau o’ch cerdyn banc. Fe ddylai ddangos eich enw, enw cyfrif, rhif cyfrif a chod didoli.




- Os nad oes gan eich cerdyn banc yr holl wybodaeth yma fe fydd yn rhaid i chi roi tystiolaeth fel datganiadau banc.

**Fe ddylai'r dogfennau rydych chi'n eu uwchlwytho fod:**



- Hyd at 10 MB yr un o ran maint.
- PDF, MS Word, MS Excel, MS PowerPoint neu JPEG.

**Dydyn ni ddim yn derbyn:**



- Ffeiliau mewn fformatau HEIC, Pages, CSV, RAW a DAT.
- Cyfrifon ar y cyd.
- Cyfrifon cymdeithas adeiladu sydd â dim ond paslyfr.
- Llyfrau siec fel tystiolaeth.
- Dydyn ni ddim yn gwneud taliadau i ISAs.



Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y tystiolaeth banc rydyn ni ei angen, anfonwch e-bost i ni ar buddsoddiacariannu@celf.cymru.

# Sut i greu cofnod banc ar-lein



Rydych chi'n gallu darparu eich manylion banc ac uwchlwytho tystiolaeth o'ch cyfrif banc yn eich cyfrif ar-lein.

Unwaith y bydd eich dogfennau tystiolaeth yn barod i'w uwchlwytho:




- Ewch i **Adran Gweinyddol – Manylion Banc** ar ein porth grantiau https://porth.celf.cymru/



- Llanwch yr adran **Rhoi Manylion Banc Newydd** a pwyso **Cyflwyno**.




- Uwchlwythwch eich tystiolaeth.



Mae’n rhaid i chi uwchlwytho dogfennau tystiolaeth wrth greu cofnod banc. Fyddwch chi ddim yn gallu gwneud hyn yn nes ymlaen.



Gwnewch yn siŵr bod eich tystiolaeth yn ateb ein hanghenion.




Fe ddylai eich tystiolaeth banc fod yr un fath â’r manylion banc rydych chi wedi eu rhoi.




Rydych chi’n gallu ychwanegu mwy nag un cyfrif banc at eich proffil ar gyfer gwahanol grantiau.




Mae’n rhaid i chi uwchlwytho tystiolaeth ar gyfer pob cyfrif.




Ddylech chi ddim gwneud llawer o gofnodion banc o’r un cyfrif banc. Os bydd hyn yn digwydd, rydych chi’n gallu cysylltu gyda ni yn buddsoddiacariannu@celf.cymru.

# Gwneud newidiadau neu rhoi mwy o dystiolaeth

Unwaith y byddwch chi yn creu eich cofnod banc ar-lein, fyddwch chi ddim yn gallu:



- gwneud newidiadau
- dileu manylion banc neu
- uwchlwytho mwy o dystiolaeth.

Rydych chi'n gallu gysylltu gyda ni os:




- Mae eich cofnod banc gyda ni wedi dod i ben, ac rydych chi eisiau defnyddio manylion y banc ar gyfer cynnig grant newydd.




- Rydych chi eisiau rhoi mwy o dystiolaeth am gofnod banc rydych chi wedi'i greu.



- Rydych chi eisiau newid cofnod banc sy’n bodoli eisoes.



- Rydych chi eisiau dileu cofnod banc.



Rydych chi’n gallu anfon e-bost i ni yn buddsoddiacariannu@celf.cymru.



Mae’n rhaid i chi roi eich **cyfeirnod cyfrif banc** i ni ar ein system.



Os bydd manylion eich cyfrif banc yn newid yn ystod eich prosiect, rhaid i chi roi gwybod i ni.




Rydych chi'n gallu creu cofnod banc newydd ac uwchlwytho tystiolaeth ar gyfer y manylion banc newydd ar-lein.



Cysylltwch â ni yn buddsoddiacariannu@celf.cymru

Rydyn ni'n gallu symud y taliadau grant i'ch cofnod banc newydd.

**Mae'n rhaid i chi roi i ni:**



- Eich cyfeirnod grant.
- Ein cyfeirnod cofnodion banc.

# Sut i dderbyn cynnig grant




Os byddwch chi yn llwyddiannus yn eich cais, fe fyddwn ni yn gofyn i chi fewngofnodi i'ch cyfrif a derbyn y dyfarniad ar-lein.



Fe fyddwn ni yn anfon e-bost atoch chi yn dweud sut i dderbyn y dyfarniad.




Fe fydd telerau ac amodau llawn y grant yn y porth ar-lein, lle mae'n rhaid i chi dderbyn y dyfarniad.

## Edrychwch ar eich manylion banc



Gwnewch yn siŵr bod eich manylion banc rydych chi eisiau i ni dalu iddyn nhw yn yr adran **Gweinyddiaeth – Manylion y Banc**.

I weld os ydy'r cofnod banc rydych chi eisiau ei ddefnyddio yn iawn, gwnewch yn siŵr:



1. Mae ganddo **Ie** yn yr adran **Dilysu**. Fe fydd hyn yn yr adran **Gweinyddiaeth – Manylion Banc**.



2. Mae'r dyddiad dod i ben cyn y dyddiad y byddwch chi yn derbyn y cynnig.



Os ydy eich cofnod banc wedi'i **ddilysu** a bod y dyddiad dod i ben ar ôl y dyddiad y byddwch chi yn derbyn y cynnig, does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth.



Os ydy eich cofnod banc wedi'i **ddilysu** a bod y dyddiad dod i ben cyn y dyddiad, rydych chi'n gallu dewis y cofnod banc a derbyn y cynnig.




Fe fydd yn rhaid i chi anfon tystiolaeth newydd i ni gyda rhif cyfeirnod banc. Am fwy o wybodaeth rydych chi'n gallu anfon e-bost i ni ar buddsoddiacariannu@celf.cymru.



Peidiwch â chreu cofnod banc newydd gyda'r un manylion cyfrif.



Os nad ydy eich cofnod banc wedi'i **ddilysu**, rydych chi'n gallu dewis y cofnod banc hwn o hyd a derbyn y dyfarniad. Fe fyddwn ni yn edrych ar eich cofnod banc ac unrhyw dystiolaeth ar ôl i chi dderbyn y dyfarniad.

## Sut i dderbyn y cynnig grant:

1. Mewngofnodwch i'n porth grantiau yma: https://porth.celf.cymru

2. Ewch i'r **adran Grantiau – Ceisiadau a gyflwynwyd**.

3. Dewiswch y grant o'r rhestr. Fe fydd hyn yn dangos manylion eich cais am grant.

4. Ar y dudalen yma sgroliwch i lawr a dewiswch **Parhewch i benderfynu**.

5. Rydych chi'n gallu darllen manylion ein cynnig, gan gynnwys gwybodaeth am daliadau.

6. Dewiswch **nesaf** i fynd i'r Telerau ac Amodau a'r dudalen **Derbyn**.

7. Dewiswch y cofnod banc rydych chi eisiau i ni dalu'r arian iddo gan ddefnyddio'r **teclyn edrych ar fanylion banc**.

8. Ar ôl i chi ddewis **cofnod banc am daliad**, darllenwch y cynnig grant a rheolau'r grant.

9. Gallwch **dderbyn y dyfarniad** gan ddefnyddio'r botwm ar waelod y dudalen.

10. Ar ôl i chi dderbyn y dyfarniad fe fyddwn ni yn edrych ar eich cofnod banc.